

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd S Powderhill	Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd P Howe	

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

47 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol W. Jones.

48 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

49 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

50 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2019 yn rhai cywir.

51 Materion yn codi

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion a ganlyn, a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu:

- Cafodd canlyniadau Prawf Gwybodaeth y Cyngor eu dosbarthu i'r aelodau;
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan Fasnachwyr mewn perthynas â'r ymgyrch Tacsis Twyllodrus;
- Nid oedd modd cael Data Apêl Cymru Gyfan oherwydd doedd dim ffynhonnell ganolog, ond roedd data RhCT o'r 5 mlynedd ddiwethaf yn cael ei gasglu a byddai'n cael ei ddosbarthu i'r aelodau.

52 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 18.11.19 - 05.01.20

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 18 Tachwedd 2019 i 5 Ionawr 2020.

Holodd un aelod am faint y cartref sydd ei angen ar gyfer bridio cŵn. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod maint y cartref yr oedd ei angen yn dibynnu ar frîd y cŵn ond sicraodd y Pwyllgor fod Sefydliadau Anifeiliaid yn destun archwiliad llawn cyn rhoi trwydded.

PENDERFYNWYD cydnabod y diweddariad.

53 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

54 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 23.11.19 - 10.01.2020

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 23 Tachwedd 2019 i 10 Ionawr 2019.

Yn dilyn nifer o gwestiynau, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gydnabod y diweddariad.

55 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 18.11.19 - 05.01.20

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18 Tachwedd 2019 i 5 Ionawr 2019.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm

**Y Cynghorydd A Fox
Cadeirydd.**